Adolygiad o Ddatganiadau Cydymffurfiaeth 2017

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.cymwysteraucymru.org

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cynnwys

1. Cyflwyniad 2

2. Y broses datganiadau cydymffurfiaeth 3

3. Cydymffurfiaeth 4

3.1 Crynodeb o gydymffurfiaeth 4

3.2 Diffyg cydymffurfiaeth fesul adran o'n Hamodau Cydnabod Safonol 5

3.3 Diffyg cydymffurfiaeth fesul amod unigol 8

4. Prif lwybrau ymholi 9

4.1 Crynodeb o'r ymatebion 9

4.2 Cywirdeb eich datganiad 9

4.3 Trefniadau gyda chanolfannau – cwynion ac apeliadau 10

4.4 Cwynion 10

4.5 Cyfanswm Amser Cymhwyso (TQT) 11

4.6 Apeliadau 11

5. Ein hymateb i'r datganiadau cydymffurfiaeth 12

5.1.1 Ceisiadau am ragor o wybodaeth 12

5.2 Cynlluniau gweithredu 13

5.3 Cyfeiriad at y rheoleiddiwr 14

6. Proses datganiadau cydymffurfiaeth 2018 14

1. Cyflwyniad

Cymwysterau Cymru yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol yng Nghymru. Rydym yn rheoleiddio er mwyn cyflawni ein prif nodau, sef sicrhau bod cymwysterau, a'r system gymwysterau yng Nghymru, yn effeithiol o ran diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru a hyrwyddo hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn y system gymwysterau yng Nghymru.

Rydym yn rheoleiddio cyrff dyfarnu yn erbyn ein Hamodau Cydnabod Safonol. Mae Amod B2.1 o'n Hamodau Cydnabod Safonol yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff dyfarnu cydnabyddedig gyflwyno datganiad cydymffurfiaeth blynyddol i ni. Mae'r datganiad cydymffurfiaeth yn seiliedig ar broses hunanwerthuso'r corff dyfarnu o'i statws cydymffurfiaeth yn erbyn yr holl Amodau Cydnabod Safonol. Rydym yn disgwyl i gyrff dyfarnu gael proses effeithiol ar waith er mwyn monitro eu cydymffurfiaeth yn barhaus. Gall cyrff dyfarnu sydd â phrosesau hunanwerthuso effeithiol ar waith nodi diffyg cydymffurfio presennol a / neu debygol. Gan ddibynnu ar natur y diffyg cydymffurfio, efallai na fydd hwn yn bryder sylweddol os oes ganddynt gynllun clir ar waith er mwyn mynd i'r afael â'r mater a dychwelyd at gydymffurfiaeth lawn.

Mae'r datganiad cydymffurfiaeth yn adnodd monitro allweddol sy'n ategu ein dull rheoleiddio a arweinir gan wybodaeth ac sy'n seiliedig ar risg. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth a'r dystiolaeth a gesglir o'r datganiadau cydymffurfiaeth, ynghyd â gwybodaeth a thystiolaeth arall, i fonitro cydymffurfiaeth cyrff dyfarnu â'n Hamodau Cydnabod Safonol.

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio sut y gwnaethom fwrw golwg dros y datganiadau cydymffurfiaeth ar gyfer 2017 ac yn crynhoi ein prif ganfyddiadau.

2. Y broses datganiadau cydymffurfiaeth

Yn natganiad cydymffurfiaeth 2017, gwnaethom ofyn i gyrff dyfarnu gadarnhau pa un a oeddent:

- yn cydymffurfio'n llawn â'n holl Amodau Cydnabod Safonol,
- yn debygol o fethu â chydymffurfio ag unrhyw rai o'n Hamodau Cydnabod Safonol o fewn y 12 mis nesaf.

Pe datganai corff dyfarnu ei fod yn methu â chydymffurfio, neu'n debygol o fethu â chydymffurfio o fewn y 12 mis nesaf, gofynnwyd iddo gyflwyno cynllun gweithredu yn nodi'r camau yr oedd yn eu cymryd a/neu'n bwriadu eu cymryd er mwyn cydymffurfio.

Ar gyfer 2017, gwnaethom gynnwys ceisiadau prif lwybrau ymholi ychwanegol am wybodaeth a thystiolaeth o fewn y datganiad cydymffurfiaeth. Gwnaethom ofyn i gyrff dyfarnu wneud y canlynol:

- disgrifio eu systemau, prosesau, rheolaethau a threfniadau eraill sy'n eu galluogi i gyflwyno datganiad cywir (amod B2).
- disgrifio sut maent yn monitro bod canolfannau yn gweithredu gweithdrefn gwyno neu broses apelio effeithiol (amod C2.3i).
- disgrifio eu gweithdrefn ar gyfer delio â chwynion mewn modd priodol ac amserol (amod D4.3/D4.4).
- disgrifio eu dull o bennu nifer yr oriau ar gyfer Cyfanswm Amser Cymhwyso ac Oriau Dysgu Dan Arweiniad i'w cymwysterau (amod E7).
- disgrifio eu proses ar gyfer delio ag apeliadau mewn modd priodol ac amserol (amod I1).

Am y tro cyntaf, cyflwynodd cyrff dyfarnu eu datganiad cydymffurfiaeth yn electronig drwy ein cronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru (QiW). Cynhyrchwyd fideo canllaw er mwyn helpu cyrff dyfarnu i gyflwyno eu datganiad.[1]

3. Cydymffurfiaeth

3.1 Crynodeb o gydymffurfiaeth

Cyflwynodd pob un (112) o'r cyrff dyfarnu a reoleiddiwyd gennym ar y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r datganiad (29 Medi 2017), ddatganiadau cydymffurfiaeth i ni. Gwnaethom adolygu pob un o'r 112 o ddatganiadau cydymffurfiaeth yn fanwl ac ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd ynghyd â'r holl wybodaeth berthnasol arall sydd gennym am bob corff dyfarnu. Cyflwynir ein canfyddiadau yn y graff isod.



Graff 1: Canfyddiadau ynglŷn â'r datganiadau cydymffurfiaeth yn dilyn adolygiad

[1] Mae'r fideo canllaw ar gael yma

Cafwyd gennym fod 86% (96 o 112) o'r cyrff dyfarnu yn cydymffurfio â'r holl Amodau Cydnabod Safonol ac yn debygol o gydymffurfio â'r holl Amodau Cydnabod Safonol dros y 12 mis nesaf, o gymharu â 75% (87 o 116) yn 2016. Roedd 14% (16 o 112) o'r cyrff dyfarnu yn methu â chydymffurfio a/neu'n debygol o fethu â chydymffurfio yn y dyfodol, o gymharu â 25% (29 o 116) yn 2016.

Yn dilyn adolygiad o'r dystiolaeth a ddarparwyd gan un corff dyfarnu, gwnaethom ddod i'r casgliad ei fod yn methu â chydymffurfio ag un amod (B2 – Cywirdeb y datganiad blynyddol i Cymwysterau Cymru), ac felly nid oedd ei ddatganiad gwreiddiol o gydymffurfiaeth lawn yn ddilys. Gwnaethom ysgrifennu at y corff dyfarnu hwn gan ddweud ein bod yn ystyried ei fod yn methu â chydymffurfio, ac yn dilyn hynny cyflwynodd y corff dyfarnu gynllun gweithredu i ni yn nodi'r camau yr oedd yn bwriadu eu cymryd er mwyn cydymffurfio.

3.2 Diffyg cydymffurfiaeth fesul adran o'n Hamodau Cydnabod Safonol

Ar gyfer yr 16 o gyrff dyfarnu nad oeddent yn cydymffurfio, dengys y graff ar y dudalen nesaf yr achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth fesul adran o'n Hamodau Cydnabod Safonol.



Graff 2: Diffyg cydymffurfiaeth fesul adran o'r Amodau Cydnabod Safonol yn dilyn adolygiad

Fel yn y ddwy flynedd flaenorol, yr adran o'n Hamodau Cydnabod Safonol yr oedd y nifer fwyaf o gyrff dyfarnu wedi methu â chydymffurfio â hi yw Llywodraethu (adran A). Roedd wyth corff dyfarnu yn methu â chydymffurfio ag amodau Llywodraethu. Hefyd, gwnaeth un o'r saith corff dyfarnu a ddatganodd ei fod yn methu â chydymffurfio hefyd nodi amodau Llywodraethu fel maes lle mae diffyg cydymffurfiaeth yn debygol yn y dyfodol.

Gwnaeth dau gorff dyfarnu ddatgan diffyg cydymffurfiaeth ag amod A1.3. Mae'r amod hwn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu fod wedi dyfarnu cymwysterau yng Nghymru yn ystod y ddwy flynedd flaenorol. Nid yw diffyg cydymffurfiaeth â'r amod hwn yn adlewyrchu'n negyddol ar ansawdd darpariaeth corff dyfarnu, ond, yn hytrach, yn rhoi ffordd o nodi cyrff dyfarnu nad oes angen iddynt o bosibl gynnal eu statws cydnabyddedig yng Nghymru o ganlyniad i ddiffyg galw am eu cymwysterau. Mae cyrff dyfarnu sy'n datgan diffyg cydymffurfiaeth â'r amod hwn wedi darparu

tystiolaeth yn eu cynlluniau gweithredu i ddangos y ffordd y maent yn mynd ati'n weithredol i gynyddu eu gweithgarwch dyfarnu yng Nghymru dros y flwyddyn nesaf.

Datganodd dau gorff dyfarnu ddiffyg cydymffurfiaeth ag A6.3, sef y gofyniad i sefydlu, cynnal a chydymffurfio â chynllun wrth gefn ysgrifenedig cyfredol. Mae cyrff dyfarnu sy'n datgan diffyg cydymffurfiaeth â'r amod hwn wedi darparu tystiolaeth yn eu cynlluniau gweithredu o'r ffordd y byddant yn rhoi hyn ar waith. Datganodd dau gorff dyfarnu ddiffyg cydymffurfiaeth ag amod A8.1, lle roeddent wedi methu â chymryd camau rhesymol i atal camymddwyn a chamweinyddu wrth ddatblygu, cyflwyno a dyfarnu cymwysterau. Mae cyrff dyfarnu sydd wedi datgan eu bod wedi methu â chydymffurfio â'r amod hwn wedi darparu tystiolaeth o'r camau y maent yn eu cymryd er mwyn rhoi hyfforddiant ychwanegol i gymedrolwyr allanol ac archwilwyr er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon a nodwyd, a thystiolaeth eu bod wedi cynnwys trefniadau ar gyfer adolygu achosion o gamymddwyn a chamweinyddu o fewn gweithdrefnau sicrhau ansawdd ar gyfer ymweliadau cymedroli â chanolfannau.

Yr adrannau nesaf o'n Hamodau Cydnabod Safonol a nodwyd fwyaf oedd adran B (Y corff dyfarnu a Cymwysterau Cymru) ac adran E (Llunio a datblygu cymwysterau). Datganodd pedwar corff dyfarnu eu bod yn methu â chydymffurfio ag adran B a datganodd pedwar corff dyfarnu gwahanol hynny ar gyfer adran E.

Roedd a wnelo'r rhan fwyaf o achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth ar gyfer adran B â B5, sylwadau ar gymwysterau, ac yn benodol rhoi teitlau anghywir i gymwysterau mewn deunyddiau cyhoeddusrwydd. Mae'r deunyddiau hyn wedi cael eu diweddaru bellach ar wefannau'r cyrff dyfarnu perthnasol. Roedd a wnelo'r rhan fwyaf o achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth ar gyfer adran E â rhoi gwerthoedd Cyfanswm Amser Cymhwyso a Gwerthoedd Credyd anghywir i gymwysterau. Mae'r gwerthoedd hyn wedi cael eu diweddaru bellach ar gronfa ddata QiW ac ym manylebau'r cymwysterau perthnasol.

3.3 Diffyg cydymffurfiaeth fesul amod unigol

Yr amod unigol mwyaf cyffredin o ddiffyg cydymffurfiaeth presennol a / neu debygol yn y dyfodol a ddatganwyd gan dri chorff dyfarnu oedd amod A6, sy'n cyfeirio at Nodi a rheoli risgiau. Mae cyrff dyfarnu sydd wedi datgan eu bod wedi methu â chydymffurfio â'r amod hwn wedi amlinellu'r camau y maent yn eu cymryd er mwyn datblygu eu cofrestri risg strategol a'u cynlluniau parhad busnes, a gwella gweithdrefnau graddio risg canolfannau.

Datganodd dau gorff dyfarnu eu bod yn methu â chydymffurfio ag amod B5.2. Roeddent yn credu eu bod wedi hyrwyddo rhai o'u cymwysterau mewn ffordd a oedd yn peri risg fach o gamarwain dysgwyr. Mae cyrff dyfarnu sy'n datgan diffyg cydymffurfiaeth â'r amodau hyn wedi darparu tystiolaeth yn eu cynlluniau gweithredu o'r camau y maent yn eu cymryd i gydymffurfio ac rydym yn fodlon na fu unrhyw ymgais fwriadol i gamarwain dysgwyr na defnyddwyr eraill cymwysterau.

4. Ymatebion i'r prif lwybrau ymholi

4.1 Crynodeb o'r ymatebion

Gwnaethom nodi bod digonolrwydd ac ansawdd yr ymatebion i'r prif lwybrau ymholi a gynhwyswyd yn y datganiadau cydymffurfiaeth yn amrywio'n sylweddol. Prin oedd y wybodaeth a gynhwyswyd gan rai cyrff dyfarnu ac nid ategwyd y wybodaeth honno gan dystiolaeth, ond darparodd eraill wybodaeth fanwl a gwerthusol iawn, gyda chyfeiriadau clir rhwng yr ymateb ar bapur a'r dystiolaeth ategol. Ar gyfer pob prif lwybr ymholi, darparodd ymatebion cryfach dystiolaeth o adolygiadau rheolaidd o bolisïau a phrosesau.

4.2 Cywirdeb eich datganiad

Fe'i gwnaethom hi'n ofynnol i gyrff dyfarnu ddisgrifio eu systemau, prosesau, rheolaethau a threfniadau eraill sy'n eu galluogi i gyflwyno datganiad cywir (amod B2).

Amlinellodd yr ymatebion cryfach broses glir a chydlynol ar gyfer sicrhau cywirdeb y datganiad, wedi'i hategu gan dystiolaeth briodol. Rhoddwyd manylion cynhwysfawr, yn amlinellu'r broses o gwblhau'r datganiad a'i adolygu'n feirniadol gan staff mewnol cyn i'r corff llywodraethu gymeradwyo'r datganiad. Ymhlith yr ymatebion cryfach roedd darnau o daenlenni neu gronfeydd data wedi'u mapio i'r Amodau Cydnabod Safonol, a ddefnyddiwyd at ddibenion hunanasesu a chamau a nodwyd i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd posibl o ddiffyg cydymffurfiaeth. Ni roddodd ymatebion mwy gwan ddigon o fanylion yn disgrifio'r broses o gymeradwyo'r datganiad. Mewn rhai achosion, ni roddwyd digon o dystiolaeth i ddechrau fod yr holl amodau wedi cael eu hadolygu fel rhan o'r gwaith o gwblhau'r datganiad.

4.3 Trefniadau gyda chanolfannau – cwynion ac apeliadau

Fe'i gwnaethom hi'n ofynnol i gyrff dyfarnu ddisgrifio sut maent yn monitro bod canolfannau yn cynnal gweithdrefn gwyno neu broses apelio effeithiol (amod C2.3i).

Gwnaeth yr ymatebion cryfach ddangos tystiolaeth o'r ffordd y gwiriwyd prosesau cwynion a / neu apeliadau canolfannau ar gam cymeradwyo'r ganolfan, a rhoddwyd manylion o'r rhaglen fonitro oedd ar waith i sicrhau y dilynwyd y polisïau hyn, fel archwiliadau bwrdd gwaith neu ymweliadau arolygu â chanolfannau. Rhoddwyd syniad clir o ba mor aml y cyflawnwyd gweithgareddau monitro canolfannau. Hefyd amlinellodd yr ymatebion cryfach y ffordd y gwiriwyd hygyrchedd y polisïau i ddysgwyr a dealltwriaeth dysgwyr. Prin oedd y wybodaeth a roddwyd gan yr ymatebion mwy gwan am broses gymeradwyo canolfannau, a gweithdrefnau monitro canolfannau dilynol.

4.4 Cwynion

Fe'i gwnaethom hi'n ofynnol i gyrff dyfarnu ddisgrifio eu gweithdrefn ar gyfer delio â chwynion mewn modd priodol ac amserol a lanlwytho eu polisi cwynion i ni ei adolygu (amod D4.3/D4.4).

Amlinellodd yr ymatebion cryfach broses glir a chynhwysfawr, a oedd yn cynnwys cwmpas cwynion, y camau uwchgyfeirio, ac eglurder rolau a chyfrifoldebau ar gyfer rheoli'r broses gwyno o fewn y corff dyfarnu. Yn yr ymatebion hyn, roedd llinellau amser yn bresennol ar gyfer cydnabod a datrys y gŵyn, ac adolygu'r polisi. Hefyd, disgrifiodd yr ymatebion hyn y camau a fyddai'n cael eu cymryd petai cwyn yn cael ei chadarnhau, gan gynnwys cyfeirio at rôl y rheoleiddiwr a sut y gallai dysgwyr a chanolfannau weld y polisi. Methodd yr ymatebion mwy gwan ag amlinellu'n glir gwmpas eu polisi na chynnwys camau penodol ar gyfer eu prosesau cwyno.

4.5 Cyfanswm Amser Cymhwyso (TQT)

Fe'i gwnaethom hi'n ofynnol i gyrff dyfarnu ddisgrifio eu dull o bennu nifer yr oriau ar gyfer Cyfanswm Amser Cymhwyso ac Oriau Dysgu Dan Arweiniad i'w cymwysterau (amod E7).

Nododd yr ymatebion cryfach broses cyrff dyfarnu o ymgysylltu â rhanddeiliaid gan gynnwys canolfannau, cyrff proffesiynol, cyflogwyr a chyrff dyfarnu eraill er mwyn cyfrifo a chymeradwyo cyfanswm oriau cymwysterau unigol. Ni roddodd ymatebion mwy gwan ddisgrifiad digonol o'u proses gyfrifo, a/neu methwyd â darparu tystiolaeth o ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol.

4.6 Apeliadau

Fe'i gwnaethom hi'n ofynnol i gyrff dyfarnu ddisgrifio eu proses ar gyfer delio ag apeliadau mewn modd priodol ac amserol a lanlwytho eu polisi apeliadau (amod I1).

Amlinellodd yr ymatebion cryfach broses apelio glir a chynhwysfawr, a oedd yn cynnwys cwmpas apeliadau, y camau uwchgyfeirio, ac eglurder rolau a chyfrifoldebau ar gyfer rheoli'r broses apelio o fewn y corff dyfarnu. Yn yr ymatebion hyn, roedd llinellau amser yn bresennol ar gyfer cydnabod a datrys pob cam o'r broses apelio. Roedd yr ymatebion hyn hefyd yn cynnwys cyfeirio at rôl y rheoleiddiwr wrth uwchgyfeirio penderfyniadau ynghylch apeliadau, a sut y gallai dysgwyr a chanolfannau weld y polisi.

Nid oedd rhai cyrff dyfarnu wedi darparu tystiolaeth o gwmpas llawn y rheswm dros apelio fel y'i diffinnir yn ein Hamodau Cydnabod Safonol. Gofynnwyd i 29% (32 o 112) o gyrff dyfarnu ddarparu rhagor o wybodaeth am y ffordd roedd eu proses apelio yn darparu ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniadau yn ymwneud ag addasiadau rhesymol ac ystyriaeth arbennig (Amod I1.1b), a chamymddwyn a chamweinyddu (Amod I1.1c).

5. Ein hymateb i'r datganiadau cydymffurfiaeth

5.1 Ceisiadau am ragor o wybodaeth

Gwnaethom nodi bod digonolrwydd ac ansawdd yr ymatebion a gynhwyswyd yn y datganiadau cydymffurfiaeth yn amrywio'n sylweddol. Prin oedd y wybodaeth a gynhwyswyd gan rai cyrff dyfarnu ac nid ategwyd y wybodaeth honno gan dystiolaeth, ond darparodd eraill wybodaeth fanwl a gwerthusol iawn, gyda chysylltiad clir rhwng yr ymateb ar bapur a thystiolaeth ategol.

Felly, gofynnwyd am wybodaeth ychwanegol gan 41% (46 o 112) o'r holl gyrff dyfarnu, yn bennaf am fod eu datganiadau yn aneglur neu'n cynnwys tystiolaeth annigonol. Gellir cymharu hyn â ffigur 2016 sef 46% (53 o 116). Roedd yn ofynnol i rai cyrff dyfarnu ddarparu rhagor o wybodaeth am fwy nag un prif lwybr ymholi, fel y dangosir yn y graff isod:



Graff 3: Cais am ragor o wybodaeth yn ôl nifer y prif lwybrau ymholi

Mae'r graff isod yn dangos categorïau'r ceisiadau am ragor o wybodaeth ar gyfer prif lwybrau ymholi. Y categori mwyaf cyffredin lle'r oedd angen eglurhad pellach oedd y prif lwybr ymholi yn ymwneud ag apeliadau.



Graff 4: Cais am ragor o wybodaeth yn ôl categori'r prif lwybr ymholi

Cawsom ymatebion boddhaol i bob un o'n ceisiadau am ragor o wybodaeth a/neu dystiolaeth gan gyrff dyfarnu. Mewn lleiafrif o achosion, nododd cyrff dyfarnu yn ystod yr adolygiad hwn nad oedd eu polisïau na'u prosesau presennol yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r amodau a rhoddwyd tystiolaeth i ni fod y rhain wedi'u diweddaru bellach.

5.2 Cynlluniau gweithredu

Gwnaeth pob un (16) o'r cyrff dyfarnu roeddem yn ystyried eu bod yn methu â chydymffurfio a/neu'n debygol o fethu â chydymffurfio dros y 12 mis nesaf lunio cynlluniau gweithredu mewn ymateb i ddatgan eu bod yn methu â chydymffurfio ar y pryd a/neu'n debygol o fethu yn y dyfodol. Rydym yn monitro'r cynlluniau

gweithredu hyn yn rheolaidd a, lle y bo'n briodol, byddwn yn cynnal gweithgarwch monitro dilynol yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn cadarnhau bod y cynlluniau gweithredu wedi'u rhoi ar waith yn llawn. Byddwn yn defnyddio'r canlyniadau a'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod proses datganiadau cydymffurfiaeth 2017 i lywio ein rhaglen monitro cyrff dyfarnu yn y dyfodol.

5.3 Cyfeiriad at y rheoleiddiwr

Mewn ymateb i adolygu tystiolaeth a gyflwynwyd fel rhan o'r broses Datganiadau Cydymffurfiaeth, gofynnwyd i sawl corff dyfarnu ddiwygio eu gwefannau er mwyn cyfeirio'n benodol at Cymwysterau Cymru fel y rheoleiddiwr yng Nghymru. Gwelsom enghreifftiau o gyfeiriadau at Lywodraeth Cymru a QiW yn hytrach na Cymwysterau Cymru. QiW yw ein cronfa ddata o gymwysterau cymeradwy a dynodedig.

6. Proses datganiadau cydymffurfiaeth 2018

Bydd y cyfnod cyflwyno ar gyfer datganiadau cydymffurfiaeth 2018 rhwng 1 Mehefin a 28 Medi. Rydym yn datblygu'r prif lwybrau ymholi ar gyfer 2018 ar hyn o bryd. Byddwn yn ysgrifennu at gyrff dyfarnu ym mis Mai 2018 i'w hysbysu o'n gofynion ar gyfer proses datganiadau cydymffurfiaeth 2018.